Cyhoeddwyd 25 Mawrth 2013 | Bydd yn dod i rym ar 22 Ebrill 2013

Cyngor Meddygol Cyffredinol

Terfynu'ch perthynas broffesiynol gyda chlaf

1 Yn *Arfer meddygol da*,[1] rydym yn nodi:

- 62 Dylech derfynu perthynas broffesiynol gyda chlaf dim ond pan fo'r ffaith bod yr ymddiriedaeth rhyngoch chi a'r claf wedi chwalu yn golygu nad oes modd i chi ddarparu gofal clinigol da i'r claf.

2 Yn yr arweiniad hwn, byddwn yn esbonio sut y bydd modd i feddygon weithredu'r egwyddor hon. Rhaid i chi fod yn barod i egluro a chyfiawnhau eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd. Dim ond methiant difrifol neu barhaus i ddilyn ein canllawiau sy'n peri risg i ddiogelwch cleifion neu ymddiriedaeth y cyhoedd mewn meddygon fydd yn peryglu'ch cofrestriad.

Pethau i'w hystyried

3 Mewn amgylchiadau prin, gallai'r ymddiriedaeth rhyngoch chi a chlaf chwalu, er enghraifft, os bydd y claf:

- yn ymddwyn mewn ffordd dreisgar, bygythiol neu amharchus tuag atoch chi neu gydweithiwr[2]
- yn dwyn rhywbeth wrthych chi neu o'r safle[3]
- yn ymddwyn mewn ffordd anystyriol neu afresymol yn barhaus
- yn cyfleu awgrymiadau rhywiol[4] i chi.

4 Ni ddylech derfynu perthynas broffesiynol gyda chlaf oherwydd bod y claf wedi gwneud cwyn amdanoch chi neu'ch tîm, neu oherwydd goblygiadau gofal neu driniaeth y claf ar adnoddau.

Cyn i chi derfynu'r berthynas

5 Cyn i chi derfynu perthynas broffesiynol gyda chlaf, dylech:

a rybuddio'r claf eich bod yn ystyried terfynu'r berthynas

b gwneud yr hyn y gallwch er mwyn adfer y berthynas broffesiynol

c ystyried dewisiadau amgen i'r dewis o derfynu'r berthynas broffesiynol

d trafod y sefyllfa gyda chydweithiwr profiadol neu gyda'ch cyflogwr neu'ch corff contractio[5]

ac mae'n rhaid i chi deimlo'n fodlon bod y rheswm dros eich dymuniad i derfynu'r berthynas yn deg ac nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn y claf (gweler paragraff 59 *Arfer meddygol da*).

Ar ôl i chi wneud penderfyniad i derfynu'r berthynas

6 Os byddwch yn penderfynu terfynu'ch perthynas broffesiynol gyda chlaf, rhaid i chi:

- **a** sicrhau bod y claf yn cael gwybod am eich penderfyniad i derfynu'r berthynas broffesiynol a'ch rhesymau dros wneud hynny; pan fo hynny'n ymarferol, dylid hysbysu'r claf yn ysgrifenedig
- **b** dilyn arweiniad[6] a rheoliadau perthnasol
- **c** cofnodi'ch penderfyniad i derfynu'r berthynas broffesiynol – rhaid i'r wybodaeth a gofnodir yng nghofnodion y claf fod yn ffeithiol ac yn wrthrychol, ac ni ddylai gynnwys unrhyw beth a fyddai'n gallu peryglu triniaeth y claf yn y dyfodol mewn ffordd annheg
- **d** sicrhau bod trefniadau'n cael eu gwneud yn brydlon ar gyfer gofal parhaus y claf, ac mae'n rhaid i chi drosglwyddo cofnodion y claf yn ddi-oed[7]
- **e** bod yn barod i gyfiawnhau'ch penderfyniad.

Cau neu adleoli'ch practis

7 Os byddwch yn cau neu'n adleoli eich practis, dylech chi:

- **a** roi rhybudd ymlaen llaw
- **b** sicrhau bod trefniadau'n cael eu gwneud ar gyfer gofal parhaus eich holl gleifion cyfredol, gan gynnwys trosglwyddo (neu reolaeth briodol) cofnodion yr holl gleifion.

Ffynonellau cyngor a gwybodaeth bellach

Lloegr

Adran Iechyd
Cylchlythyr gwasanaeth iechyd 2000/001 *Tackling violence towards GPs and their staff*
www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Lettersandcirculars/Healthservicecirculars/DH_4003798

Cymdeithas Feddygol Prydain – Pwyllgor Meddygon Teulu (GPC)
Removal of patients from GP lists
www.bma.org.uk/-/media/Files/PDFs/Practical%20advice%20at%20work/Doctors%20as%20managers/gpremovepats0405.pdf

Cymdeithas Gwarchod Meddygol
Removing patients from the practice list (yn ogystal, gweler taflenni ffeithiau ar gyfer y bedair wlad yn y DU)
www.medicalprotection.org/uk/your-practice-december-2012/removing-patients-from-the-practice-list

Undeb Amddiffyn Meddygol
www.the-mdu.com

Ombwdsmon Seneddol a'r Gwasanaeth Iechyd
Listening and Learning: the Ombudsman's review of complaint handling by the NHS in England 2010-11
www.ombudsman.org.uk/healthchp/downloads

Astudiaethau achos ynghylch tynnu enwau cleifion oddi ar restrau
www.ombudsman.org.uk/healthchp/case-studies2/unfair-removal-from-gp-patient-lists

Astudiaethau achos o adolygiad yr Ombwdsmon o weithgarwch delio gyda chwynion yn Lloegr
www.ombudsman.org.uk/healthchp/case-studies2/communication-and-complaint-handling

Undeb Amddiffyn Meddygol a Deintyddol yr Alban (MDDUS)
Risk alert – think before removing patients (30 Tachwedd 2011)
www.mddus.com/risk-management/risk-alerts/2011/november/think-before-removing-patients

Gogledd Iwerddon

Rheoliadau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Gogledd Iwerddon) 2004 – mae rhan dau yn ymwneud â thynnu enwau cleifion oddi ar restrau Meddygon Teulu mewn amrediad o sefyllfaoedd
www.dhsspsni.gov.uk/no140_gms_contract_regs_bm3.pdf

Yr Alban

Undeb Amddiffyn Meddygol a Deintyddol yr Alban (MDDUS)
Risk alert – think before removing patients (30 Tachwedd 2011)
www.mddus.com/risk-management/risk-alerts/2011/november/think-before-removing-patients

Adnodd Arfarnu Ar-lein yr Alban (SOAR) ar gyfer Meddygon Teulu yn yr Alban
Adran ynghylch perthnasoedd gyda chleifion, gan gynnwys tynnu enwau cleifion oddi ar restrau Meddygon Teulu
www.scottishappraisal.scot.nhs.uk/toolkit/relationships-with-patients-(gp-scot-1c).aspx

Ôl-nodion

1 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Arfer meddygol da* Llundain, CMC.

2 Gweler Cylchlythyr Gwasanaeth Iechyd 2001/18 *Withholding treatment from violent and abusive patients in NHS Trusts* (www.dh.gov.uk/prod_consum_dh/groups/dh_digitalassets/@dh/@en/documents/digitalasset/dh_4012205.pdf).

3 Os byddwch yn penderfynu hysbysu'r heddlu am glaf, rhaid i chi ddilyn ein harweiniad ynghylch cyfrinachedd. Cyngor Meddygol Cyffredinol (2009) *Cyfrinachedd* Llundain, CMC.

4 Yn ogystal, rhaid i chi ddilyn ein harweiniad ynghylch cynnal terfyn proffesiynol rhyngoch chi a'ch claf (gweler paragraff 7). Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Cynnal terfyn proffesiynol rhyngoch chi a'ch claf* Llundain, CMC.

5 Os ydych chi'n pryderu bod plentyn neu berson ifanc mewn perygl o gael cam-drin neu esgeuluso, mae'n rhaid i chi ddilyn ein harweiniad *Diogelu plant a phobl ifanc: cyfrifoldebau pob meddyg*.

6 Gweler *Listening and Learning: the Ombudsman's review of complaint handling by the NHS in England* 2010–11.

7 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Arfer meddygol da* Llundain, CMC, paragraff 44.

Cyhoeddwyd Mawrth 2013, ddiweddaru Tachwedd 2020.
© 2020 Cyngor Meddygol Cyffredinol.
Mae CMC yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278) a'r Alban (SC037750).

Cod: GMC/EPRWP/1120